# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Quality Care (Wales) Limited**

**Quality Care (Wales) Ltd**
**Glan Rhos**
**Llanfairpwllgwyngyll**
**LL61 6TZ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/08/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Quality Care (Wales) Limited

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Quality Care (Wales) Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 52 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22/10/2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Caiff y cartref ei arwain yn dda ac mae ymrwymiad i wella'r gwasanaeth er budd y bobl sy'n byw yno. Gwelsom fod y staff yn parchu unigolrwydd y bobl ac yn deall eu hanghenion gwahanol a rhoddir pwyslais cadarn ar ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Caiff cydberthnasau cadarnhaol eu meithrin ac mae'n amlwg bod y staff, y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r ymwelwyr yn gyfarwydd â'i gilydd. Caiff y bobl eu hannog a'u cefnogi i fod mor annibynnol â phosibl. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth fanwl am anghenion y bobl. Gallai datblygu'r cynlluniau personol ymhellach fel eu bod yn canolbwyntio mwy ar yr unigolyn wella canlyniadau i'r bobl.

Gofelir am y bobl mewn amgylchedd diogel a glân ac mae rhaglen addurno barhaus ar waith. Mae'r cartref yn groesawgar, yn gyfforddus, yn gartrefol ac wedi'i bersonoli. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant a sesiynau goruchwylio rheolaidd. Caiff y bobl gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon ac i ddilyn eu diddordebau mewn ffordd gefnogol gyda staff cyfeillgar a brwdfrydig. Mae digon o staff yn cael eu cyflogi i dreulio amser un i un gyda'r bobl.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gwneud dewisiadau am y rhan fwyaf o'r agweddau ar eu gofal yn y gwasanaeth. Gwelsom fod y bobl yn ymateb yn gadarnhaol i'r cymorth a gynigir. Dangosodd yr arsylwadau a wnaethom drwy gydol y dydd fod urddas y bobl yn cael ei hyrwyddo. Gwelsom y staff yn curo ar ddrysau ystafelloedd y bobl cyn mynd i mewn iddynt. Roedd y staff yn ymdrin â'r bobl mewn ffordd dyner ac ni welwyd bod y bobl yn cael eu rhuthro. Roedd y staff yn defnyddio dulliau cyfathrebu dieiriau, megis cyffwrdd â'r fraich yn ysgafn a phenlinio wrth ymyl y bobl. Roedd y bobl yn ymddangos yn daclus, ac roedd sylw wedi cael ei roi i'w hymddangosiad personol. Gwelsom nifer o'r staff yn rhoi dewis i unigolion o ran pa lolfa yr hoffent eistedd ynddi yn ystod y dydd.

Mae'r bobl yn cael eu trin ag urddas a pharch, ac mae ganddynt gydberthnasau da â'r staff. Gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r bobl yn ystod amser cinio. Roedd y staff ar gael i helpu'r bobl i fwyta eu cinio os oedd angen, ac roeddent yn gwneud hyn gydag amynedd a sensitifrwydd. Gwelsom aelod o'r staff yn helpu unigolyn ag anawsterau cyfathrebu. Roeddent yn gallu cyfathrebu'n effeithiol a rhoddodd gymorth ychwanegol i'r unigolyn er mwyn diwallu ei anghenion. Gwelsom aelod o'r staff yn rhyngweithio â'r bobl. Roedd hyn yn cael effaith gadarnhaol arnynt a gwelsom y bobl yn gwenu ac yn mynegi mwynhad.

Caiff y bobl ymdeimlad o berthyn yn y cartref. Caiff y gwasanaeth ei redeg gan deulu ac mae wedi'i leoli mewn ardal wledig. Mae cyfleoedd i'r bobl gael eu hysgogi a chadw'n brysur, neu gael pethau i edrych ymlaen atynt. Caiff y bobl wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r bobl yn cael prydau bwyd a diodydd priodol, iach a maethlon. Mae'r prydau bwyd yn cael eu paratoi'n ffres, gan ddefnyddio cynhwysion lleol. Maent yn cael dewis amrywiol o fwyd, a chaiff anghenion llysieuol eu diwallu. Mae'r bobl yn cael dewis a gallant ddewis prydau bwyd eraill os nad ydynt yn hoffi'r hyn sydd ar y fwydlen. Caiff y bobl ddewis p'un a ydynt am fwyta yn yr ystafell fwyta neu yn eu hystafelloedd eu hunain.

Mae'r bobl mor ddiogel ag y gallant fod. Gwelsom o ffeiliau gofal y bobl fod atgyfeiriadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn cael eu gwneud yn briodol ac yn amserol. Mae manylion cyswllt eiriolwyr ar gael yn hawdd yn y cartref. Caiff y staff hyfforddiant ar ddiogelu a threfniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid fel y gwelir yn y cofnodion hyfforddiant. Caiff y staff eu fetio cyn iddynt ddechrau yn eu swydd ac maent yn ymgymryd â chyfnod sefydlu. Mae polisi cwyno ar waith. Mae gan y rheolwr bolisi drws agored, a dywedodd y staff a'r ymwelwyr wrthym ei bod yn hawdd mynd at y tîm rheoli.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gaiff ei gofnodi'n glir yn y cynlluniau personol. Dangosodd cofnodion fod asesiadau'n cael eu cynnal cyn derbyn rhywun newydd i'r cartref ac y gall pobl ymweld â'r cartref er mwyn penderfynu a yw'r gwasanaeth yn addas ar eu cyfer. Caiff adolygiadau eu trefnu yn ar ôl derbyn unigolion i'r cartref, gyda'r unigolion dan sylw, er mwyn asesu addasrwydd y lleoliad. Roedd ffeiliau gofal y bobl yn drefnus iawn. Roedd ciplun cryno o'r unigolion ar flaen pob ffeil a oedd yn ddefnyddiol iawn ac yn cynnwys amlinelliad o'u hoff bethau a'u cas bethau. Roedd hyn yn helpu i arwain y staff i ddarparu gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn. Mae'r nodiadau gofal dyddiol a gaiff eu cwblhau gan y staff yn fanwl. Caiff y cynlluniau personol a'r asesiadau risg eu hadolygu'n fisol neu pan fydd newid sylweddol yn sefyllfa'r unigolyn.

Anogir y bobl i gadw'n iach ac yn heini. Dangosodd cofnodion fod gan y bobl gynllun gofal iechyd a oedd yn cynnwys cymorth gan weithwyr gofal iechyd cymunedol ac iechyd meddwl proffesiynol. Caiff y bobl eu cefnogi i gael archwiliadau meddygol ac i fynychu apwyntiadau. Cadarnhaodd ein trafodaethau a'r cofnodion a welsom fod iechyd y bobl yn cael ei adolygu a'i fonitro ynghyd â'u hanghenion gofal a chymorth eraill. Dangosodd cofnodion fod y bobl yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaethau proffesiynol yn ôl yr angen. Caiff y bobl eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar y broses o roi meddyginiaeth. Cynhelir archwiliadau rheolaidd o'r system feddyginiaeth. Caiff y bobl sydd mewn perygl o gael briwiau pwyso eu monitro'n rheolaidd a'u hail-leoli fel y rhagnodwyd gan ddefnyddio'r slingiau cywir.

Mae anghenion a dewisiadau unigol y bobl yn hysbys ac wedi'u cofnodi'n glir. Mae'r bobl yn cael eu trin mewn ffordd garedig ac ystyriol gan grŵp cyfarwydd o staff sy'n deall eu hanghenion unigol. Caiff y staff y wybodaeth sydd ei hangen arnynt a'r cynlluniau personol i ddarparu gofal sy'n diwallu anghenion y bobl. Gwelsom fod y staff yn y cartref yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a bod cyfran uchel o ryngweithio cadarnhaol rhwng y staff a'r bobl sy'n byw yn y cartref.

Caiff unigolrwydd y bobl ei werthfawrogi a chânt eu hannog i fynegi eu diddordebau a'u dilyn. Mae'r cartref yn cyflogi swyddog gweithgareddau dynodedig i gefnogi'r bobl gyda'u diddordebau a'u gweithgareddau. Gwelsom y staff yn siarad â'r bobl mewn ffordd naturiol gan sgwrsio â nhw am eu diddordebau a'u teuluoedd. Dengys hyn eu bod yn adnabod y bobl yn dda ac yn gwerthfawrogi eu hunigolrwydd. Gwelsom sesiwn weithgareddau lle roedd y bobl yn paratoi i gymryd rhan mewn sesiwn celf a chrefft ac roedd pobl eraill yn sgwrsio â'r staff gofal. Roedd pobl wedi gwneud bagiau pot pourri yn ddiweddar ac roedd eraill wedi mwynhau gwau. Mae amserlen weithgareddau lawn ar gael, a chaiff y gweithgareddau eu teilwra at ddiddordebau a galluoedd unigol y bobl.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn ddiogel rhag dieithriaid yn dod i mewn i'r safle. Nid oeddem yn gallu mynd i mewn i'r adeilad heb ganu'r gloch, a daeth aelod o'r staff i'r drws. Gofynnwyd i ni am brawf adnabod a chawsom ein hannog i lofnodi a nodi ein hamser cyrraedd a gadael yn y llyfr ymwelwyr. Caiff gwybodaeth gyfrinachol y bobl ei chadw'n ddiogel. Mae systemau ar waith i sicrhau bod cyfleusterau a chyfarpar yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Gwelsom y cofnodion cynnal a chadw ar gyfer y cyfarpar, gan gynnwys y systemau diogelwch tân a'r teclynnau codi. Caiff asesiadau risg tân eu cwblhau unwaith y flwyddyn. Dangosodd y cofnodlyfr diogelwch tân a'r cofnodlyfr rheoli diogelwch tân fod gwiriadau misol yn cael eu cynnal. Mae'r gwiriadau a'r mesurau iechyd a diogelwch mewn perthynas â thystysgrifau tân, cofnodion gosod systemau nwy a diogelwch nwy, trydan a phrofion offer cludadwy yn foddhaol ac yn gyfredol. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng ar waith ar gyfer y bobl os bydd argyfwng, a gwelsom fod asesiadau risg cyffredinol yn y cofnodlyfr tân. Mae adran Iechyd yr Amgylchedd wedi dyfarnu sgôr hylendid bwyd o 5 i'r gwasanaeth (y sgôr uchaf) sy'n dangos pa mor dda y mae'r busnes yn bodloni gofynion cyfraith hylendid bwyd ar adeg yr arolygiad.

Mae amgylchedd glân a chyfforddus yn cael ei gynnig i'r bobl. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn gerddi helaeth yng nghanol cefn gwlad. Gall y bobl fynd am dro o amgylch y gerddi, os y dymunant. Gwelsom fod ardaloedd allanol y cartref, gan gynnwys y gerddi a'r ardaloedd parcio, mewn cyflwr da ac roedd ardaloedd eistedd yn yr awyr agored i'r bobl eu defnyddio. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn helpu'r bobl i fynd ar daith fer ar droed yn yr awyr agored os nad ydynt yn gallu mynd ar eu pen eu hunain. Mae'r gwasanaeth yn cyflogi staff yn benodol ar gyfer glanhau. Mae pob ardal yn y cartref yn lân ac ni nodwyd unrhyw arogleuon annymunol. Mae rhaglen ailaddurno ac adnewyddu barhaus ar waith yn y cartref. Gwelsom fod nifer o'r ystafelloedd gwely, y mae llawer ohonynt wedi'u personoli â lluniau ac eitemau personol, yn adlewyrchu personoliaeth a diddordebau'r unigolion sy'n hyrwyddo'r ymdeimlad o berthyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r tîm arwain a rheoli wedi ymgorffori diwylliant cadarnhaol yn y gwasanaeth, gan neilltuo cryn dipyn o amser i gefnogi'r staff a'r bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r bobl yn gwybod beth y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Mae systemau ar waith i fonitro a gwella ansawdd y gofal a ddarperir, sy'n cynnwys y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn bresennol yn y cartref bob dydd ac yn darparu gofal ymarferol. Dywedodd y staff, y preswylwyr a'r perthnasau y gwnaethom siarad â nhw ei bod yn hawdd mynd at y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol a'u bod yn weladwy yn y cartref. Gwnaethant ddweud hefyd eu bod yn gwybod sut i godi pryderon. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod y drws ar agor bob amser. Mae'r polisi cwynion sy'n dangos y gweithdrefnau a ddilynir ac amserlenni ymateb ar gael i'r bobl. Dywedodd y perthnasau a oedd yn ymweld â'r cartref wrthym eu bod yn hyderus y byddai'r tîm rheoli yn gweithredu ar unrhyw bryderon yn gyflym, ond nodwyd mai prin iawn yw'r achosion hyn.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan staff sy'n cael eu fetio, yn ymgymryd â hyfforddiant a'u goruchwylio'n rheolaidd. Dangosodd cofnodion fod rhaglen ar waith ar gyfer sefydlu staff a darparu hyfforddiant parhaus. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar amddiffyn oedolion, meddyginiaeth, deddf galluedd meddyliol, gofal diwedd oes, codi a chario, iechyd a diogelwch a rheoli heintiau. Mae'r gwasanaeth wedi sicrhau bod ei raglen sefydlu yn gyson ag argymhellion Gofal Cymdeithasol Cymru ac mae'n annog amgylchedd dysgu. Caiff gwiriadau recriwtio eu cynnal er mwyn asesu a yw'r bobl yn addas i weithio yn y cartref ac mae'r staff gofal yn cael cyfarfodydd goruchwylio un i un yn rheolaidd. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y dystiolaeth a welsom ar gofnod a dywedwyd wrthym fod yr hyfforddiant y maent yn ei gael yn dda iawn a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y tîm rheoli a'r uwch-dîm.

Mae'r bobl yn cael gofal rheolaidd gan dîm cyson o staff, sy'n golygu bod modd cynnig parhad gofal i'r bobl. Gwnaethom edrych ar y rotas misol a gwelsom fod niferoedd digonol o staff wedi'u cyflogi yn y gwasanaeth. Mae'r lefelau staffio yn galluogi'r staff i ofalu am y bobl heb ruthro ac ymatebir i'r clychau galw yn brydlon. Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl mewn ffordd ofalgar. Mae digon o staff ar ddyletswydd ac mae ffocws ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r bobl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus iawn ac wrth eu boddau'n gweithio yn y gwasanaeth. Roedd rhai aelodau o'r staff wedi gweithio yn y gwasanaeth am nifer o flynyddoedd ac wedi dychwelyd i weithio yn y gwasanaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/10/2023